

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru Gyfan: Pobl Ifanc nad ydynt mewn
Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**

Awst 2014

Cefndir



- Yn dilyn ymgynghoriad, penderfynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai un o'i astudiaethau'n canolbwyntio ar b'un a oedd awdurdodau lleol yn gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol astudiaeth gwerth am arian genedlaethol hefyd ar bobl ifanc sy'n NEET. Roedd perthynas agos iawn rhwng y ddwy astudiaeth. Cyhoeddwyd adroddiadau cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014.
- Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar b'un a oedd y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa dda i'w gwneud yn bosibl i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Cwestiynau'r astudiaeth



- Cwestiwn cyffredinol: 'A oes gwersi i gynghorau eu dysgu o ymdrechion i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?'
- Ategwyd y cwestiwn cyffredinol gan dri is-gwestiwn
 - A yw cynghorau'n deall yr angen i wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?
 - A yw cynghorau'n gwneud cynlluniau digonol er mwyn sicrhau camau gweithredu lleol effeithiol?
 - A yw cynghorau'n gwneud digon i sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?
- Cynhaliwyd gwaith maes a oedd yn cynnwys dadansoddi dogfennau, cyfweiliadau a grwpiau ffocws mewn sampl o 10 o gynghorau (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Casgliadau astudiaeth genedlaethol – adolygiad o gynghorau

- Daethom i'r casgliad fod cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i ostwng ymhellach gyfran y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai 16-18 oed, ond bod eu gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall y costau neu werthuso effeithiolrwydd ymyriadau
 - Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i wella canlyniadau pobl ifanc ac yn deall y costau cymdeithasol o beidio â gwneud hynny, ond gwan yw eu dealltwriaeth o'r gost ariannol o gyflawni eu nodau
 - Er bod y sail dystiolaeth yn gymharol dda, mae ansawdd gwaith cynllunio strategol y cynghorau yn amrywio ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur
 - Er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, mae'r ffaith nad oes systemau gwerthuso rheolaidd ar waith yn golygu bod cyfraniad ymyriadau unigol yn aml yn aneglur, bod cyfraniad partneriaid yn amrywio ac nad yw safbwyntiau pobl ifanc yn dylanwadu fawr ddim ar waith y cynghorau

Canfyddiadau lleol




- Roedd nifer o ganfyddiadau lleol am Gonwy, ac mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cenedlaethol:
 - Cyhoeddwyd yr adroddiad cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014
 - Mae Conwy yn cyfeirio at y canlynol.....
 - Gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i fapio anghenion pobl ifanc NEET rhwng 19 a 24 oed.
 - Gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu cyllid yr UE ar gyfer swyddfa yng Ngholeg Llandrillo er mwyn cydlynu gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 19 a 25 oed.
 - Parhau â chynlluniau llwyddiannus unwaith bod cyllid yr UE wedi dod i ben.
 - Cyngor Bwrdeistref i werthuso profiad gwaith.

A yw Conwy yn deall yr angen i wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?

- Mae lleihau NEET yn flaenoriaeth i'r Cyngor.
- Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fynd i'r afael â'r mater.
- Mae gan Gyngor Conwy ddealltwriaeth glir o'r polisïau lleol sydd eu hangen arno er mwyn mynd i'r afael â NEET.
- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn dweud bod yr ystod eang o ffrydiau a mentrau a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer NEET yn creu dryswch ac mae hyn yn rhwystro gwaith cynllunio effeithiol.
- Er bod y Cyngor yn defnyddio technoleg newydd fel cyfryngau cymdeithasol er mwyn cefnogi mentrau NEET, caiff y technolegau hyn eu defnyddio ar sail ad hoc yn hytrach nac mewn ffordd strategol sydd wedi'i chynllunio.

A yw Conwy yn gwneud cynlluniau digonol er mwyn sicrhau camau gweithredu lleol effeithiol?



- Mae gan y Cyngor sail dystiolaeth glir i ategu ei gynlluniau.
- Mae dadansoddi data yn dylanwadu ar gynlluniau, fel y newid i ganolbwyntio ar unigolion NEET sy'n hysbysu y mae eu niferoedd yn codi.
- Mae blychau mewn data wedi'u nodi ac yn cael sylw.
- Mae nifer o bartneriaid yn mynychu CAG2 ac mae'n hwyluso gwaith cynllunio effeithiol ar draws sefydliadau.
- Mae enghreifftiau cadarnhaol o rannu gwybodaeth ond cydnabyddir bod lle i wella ymhellach eto.
- Nid yw'r Cyngor bob amser yn cydlynu mentrau rhwng adrannau'r Cyngor yn effeithiol.

A yw Conwy yn gwneud digon i sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?

- Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd llawer o'i brosiectau NEET.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion, sefydliadau addysg bellach, a darparwyr seiliedig ar waith er mwyn nodi'r rhai sydd mewn perygl a'u hatal rhag ymddieithrio'n gynnar.
- Mae'r Cyngor (a'r BGLI) yn gweithio fel mater o drefn gyda'r Cyngor leuenctid er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bobl ifanc, gan gynnwys NEET, fel ansawdd profiad gwaith.
- Mae cyfraddau gadael hyfforddiant neu gyflogaeth yn isel ymhlith pobl 16/17 oed.

Casgliadau'r astudiaeth genedlaethol



- Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol astudiaeth gwerth am arian genedlaethol hefyd ar bobl ifanc sy'n NEET. Roedd perthynas agos iawn rhwng y ddwy astudiaeth.
- Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n NEET ond nid yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl rhwng 19 a 24 oed sy'n NEET a phennu gwerth am arian.

Casgliadau'r astudiaeth genedlaethol

- Y canfyddiadau allweddol yw:
 - Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwaith ymgysylltu â chynghorau a rhai partneriaid mawr ond nid oes ganddo asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni ei amcanion.
 - Os caiff ei weithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn debygol o helpu i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n NEET, ond mae risgiau sylweddol yn bodoli o hyd.
 - Mae gan Lywodraeth Cymru ddulliau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau wedi mabwysiadu eu targedau er gwaetha'r ffaith eu bod yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.
 - Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynlluniau digon clir i gyflawni ei hymrwymadau o ran gwerthuso'n effeithiol a dysgu a rennir ac asesu gwerth am arian y gwariant cyhoeddus sylweddol yn y maes hwn.

Unrhyw gwestiynau?

